**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
**—**
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Cwnsler Cyffredinol
Llywodraeth Cymru

22 Tachwedd 2023

Annwyl Mick,

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): gweithredu

Diolch eto am gytuno i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Biliau Diwygio ddydd Mercher 13 Rhagfyr. Edrychwn ymlaen at drafod y Bil a'r materion sydd wedi codi o'n gwaith craffu ar y Bil hyd yma.

I'n galluogi i wneud y defnydd gorau o amser yn y sesiwn dystiolaeth, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn darparu'r wybodaeth ganlynol ymlaen llaw:

1. Trosolwg o'r llinell amser ddisgwyliedig ar gyfer gweithredu diwygiadau etholiadol Llywodraeth Cymru cyn etholiad 2026.

2. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r llinell amser y cyfeirir ati uchod yn cynnwys yr amserlenni sy'n gysylltiedig â'r gwaith arfaethedig ar gyfer adolygu, diwygio, cydgrynhoi, a chraffu ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (fel y'i diwygiwyd).[1]

3. Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi syniad o natur a maint y newidiadau yr ydych yn rhagweld y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cynnig yn eich ymgynghoriad ar ddiwygio a chydgrynhoi Gorchymyn 2007, gan gynnwys, er enghraifft, y mathau o fesurau ymarferol

[1] Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Medi 2023, paragraff 342

(y tu hwnt i gynllun y papurau pleidleisio) y mae'n bosibl y rhoddir sylw iddynt yn y Gorchymyn.

Er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon yn gallu llywio'r sesiwn dystiolaeth ar 13 Rhagfyr 2023, byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb **erbyn 30 Tachwedd 2023**.

Yn gywir,

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.